## WILLIAM OWEN BORTHYGEST yn dwyn i gof

# Lle bu'r hen Gymro cyn dyfod y llama

YN DDIWEDDAR llwyddais i ychwanegu dau arall at y casgliad, sy'n dechrau tyfu gen'i bellach, o lofnodion ac o lythyrau rhai o'r 'gwŷr enwog gynt'.

Yr un person yw awdur y ddau lythyr ond fod y naill wedi ei anfon ar y 10fed o Fedi 1901 ganddo, a'r llall bymtheng mlynedd ar hugain, neu hanner oes, yn ddiweddarach, ar y 9fed o Ebrill 1936 — o'r Carneddi, nid nepell o Nanmor uwchlaw Beddgelert.

A'r llythyrwr? Wel, un a oedd yn gasglwr digon dygn ei hun, casglwr llyfrau beth bynnag, heb sôn am fod yn ffarmwr defaid a hanesydd lleol ac yn fardd a llenor ac yn newyddiadurwr o gryn fri yr un pryd — Carneddog, neb llai.

A dau lythyr ydyn nhw sy'n dangos yn bur eglur y dirywiad a fu yn hanes ac agwedd meddwl yr hen frawd gyda threiglad y blynyddoedd.

Llythyr gan ŵr oddeutu'r deugain oed, ym mloda'i ddyddiau, yw'r cyntaf. Yr oedd ysgrifennydd Cymdeithas Lenyddol Eglwys y Tabernacl (M.C.), Porthmadog, wedi anfon ato i'w wahodd yno i draddodi darlith. Y mae ei ateb yntau yn un digon hyderus. Mae'r llawysgrifen gymen yn werth ei gweld. Dydi o'n biti fod yr hen grefft honno ar ddarfod? Melltith ar Mistar Biro!

*'Os bydd fy iechyd yn weddol',*

meddai, ar ôl brawddeg neu ddwy o ragymadroddi,

*'addawaf ddod . . . y pwnc yw cael testun cymhwys. Bûm yn rhoi anerchiadau ar Dafydd Namor a Rhys Goch Eryri . . . ond gwell gennyf yna fuasai trio dweyd gair ar y testun eang hwn — "Yr hen bobol 'stalwm, eu dull o fyw, eu harferion, straeon amdanynt', ac ati . . .'*

Ond y mae'n cloi efo gair o rybudd:

*'Os bydd Rhagluniaeth y Nef o fy nhu, deuaf atoch — ond cofiwch yn ddifrifol mai siaradwr gwael ydwyf. . . . Byth yn gywir a gwlatgar, Carneddog.'*

Mae'r geiriau 'siaradwr gwael', wedi eu tanlinellu deirgwaith!

Bûm yn aelod o Gymdeithas Lên a Thrafod y Tabernacl ers rhai blynyddoedd bellach a chlywais draethu huawdl o bryd i'w gilydd yno gan wŷr dawnus a dysgedig, er y byddwn i wedi bod yn eitha' parod i gyfnewid 'u hanner nhw am y fraint o fod wedi cael gwrando ar Carneddog yn traethu ar 'Yr hen bobol 'stalwm' y noson honno . . . a hynny — o'i gymryd o ar ei air felly — er saled oedd o!

AR DDARN o bapur pinc y sgriblwyd yr ail lythyr. A sgribl grynedig ydi hi hefyd. Yn wir, oni bai eich bod yn gwybod yn wahanol, fe daerech nad yr un yw'r awdur. Erbyn hynny 'roedd o'n hynafgwr llesg, oddeutu pymtheg a thrigain oed. Gellir casglu fod ysgrifennydd Cymdeithas Lenyddol y Tabernacl wedi bod ar ei ofyn eilwaith.

'Roedd yn fwriad ganddynt i fynd ar *rambl*, chwedl nhwtha', i ardal Nanmor ddechrau gwanwyn 1936 ac yr oeddynt yn awyddus i Carneddog eu cyfarfod yno a gweithredu fel math o dywysydd iddynt ar y daith.

Y mae yntau yn prysuro i ateb,

*'Symol wyf ers talwm'*

meddai,

*'Mae gwendid y galon yn ddrwg arnaf a rhyw benstandod rhyfedd yn fy llethu. Cedwais lawer i mewn drwy'r gaeaf . . . ni fûm ym mhentre' Namor er Dydd Diolchgarwch . . .'*

a chan ychwanegu,

*'Wiw i mi fentro eich cyfarfod neu âf i Feddgelert i huno . . . A pheidiwch chitha', rwy'n erfyn arnoch, â dod heibio i'r Carneddi 'ma — yn wir yr ydych yn ormod o "Swels" a byddech yn fy nghynhyrfu'n enbyd . . .'*

Yr hen greadur gwerinol yn ofni y byddai 'swels' y Tabernacl yn ei fwrw'n lân loyw oddi ar ei echel! Rhyfedd o fyd, o gofio mai yno yng nghapel y 'swels', gyda Iolo Caernarfon yn gweinyddu, y priodwyd o a Catrin, ddiwedd Ionawr 1889.

Bu fyw am ddeng mlynedd arall ar ôl yr ail lythyr, cyn i Geoff Charles, ar ran *Y Cymro*, gyrchu yno i dynnu'r llun enwog hwnnw o'r ddau'n 'edrych dros y bryniau pell' cyn 'i helcud hi ohonynt draw i Hinckley, ym mherfeddion Lloegr, ac mor bell o'u hen gynefin.

Eithr heddiw, petai ni aelodau Cymdeithas Lên y Tabernacl — a chyda llaw nid 'swels' mohonom bellach, er bod ambell gôt ffyr i'w gweld yn ein plith o hyd wrth reswm — yn cyrchu tua'r Carneddi, mae lle i gredu mai ni fyddai'n cynhyrfu ac nid y perchennog presennol . . . cynhyrfu o bosib' o weld gyr o Llamas yn dod i'n cyfarfod ar y llethrau!

A rhyfedd eto o fyd, canys bridio pethau felly wneir yno bellach — a wnaed tan yn ddiweddar iawn beth bynnag — gan beri i chi deimlo eich bod rywle yng ngodreon yr Andes.


## SIOP LYFRAU'R CASTELL

**Stryd y Castell, Holt, Wrecsam, Clwyd LL13 9YW**
**Ffôn: (0829) 270382 Ffacs (0829) 271087**

**Llyfrau ail-law a hynafol.**
**Agored 10 a.m. — 5 p.m. Llun i Sadwrn**

**Catalogau cyson o lyfrau o ddiddordeb Cymreig.**
**Pob cyfrol maint 8vo., clawr lliain oni nodir yn wahanol.**

1. AB ITHEL: Dosparth Edeyrn Davod Aur, or The Ancient Welsh Grammar . . . compiled in the 13th Century . . . and rules of Welsh Poetry. Cymdeithas MSS Cymreig. Llanymddyfri, 1856, 359 tud. Ochrau'r clawr yn wan a mymryn o ôl tamprwydd ar y cloriau .......... £30.00
2. BAKER, A. & BAKER, H.: Plas Mawr Conway N. Wales. Wedi ei gyhoeddi'n breifat, Llundain 1888, arg. cyf. o 200, 52 tud., 23 o blatiau a chartiau achau. Folio .......... £70.00
3. BATTY, Capt.: Welsh Scenery from Drawings. Jennings, Llundain, 1825. 35 o blatiau a thestun gyferbyn a phob un. Mymryn o draul, peth brychni, cefn wedi ei drwsio .......... £125.00
4. BEZANT, LOWE W.: The Heart of North Wales. Dwy gyfrol. Llanfairfechan 1912 a 1927, 528 tud. Platiau .......... £85.00
5. Y Bibl Dwyieithog. J. Harris, Abertawy, 1873-4, 334 tud. 4to. Lledr llawn, euro .......... £20.00
6. Y Testament Newydd Dwyieithawg. Thomas Gee, Gwasg Clwydian Dinbych, 1824, 547 tud, 8vo. bychan. Lledr llawn, euro'r cefn. Enwir perchennog arno — 'Thomas P. Jones, Plas Pistill, Rachub, Llanllechid' .......... £18.00
7. BINGLEY, W. Rev.: A Tour Round North Wales Performed During the Summer of 1798. Cyfrol 1 yn unig (o ddwy). Llundain, 1800, 512 tud. Dau blât, ychydig dud ola' a pheth tamprwydd, un ddalen rydd, hanner lledr wedi gwisgo .......... £37.000
8. BOWEN, E. G. & GRESHAM, C.: A History of Merioneth. Cyf. 1, 1967, 4to., 298 tud. Deuddeg plât + 110 o fapiau a ffigurau .......... £56.00
9. BREEZE, E.: Kalendars of Gwynedd. Llundain, 1873, 161 tud. Un plât, 4to. Dail heb eu torri, mymryn o frychni, cefn wedi colli lliw .......... £38.00
10. BULKELEY, OWEN Hon Mrs (Gwenrhian Gwynedd): History of Selattyn Parish. Oswestry, 1927, viii + 477 tud., 4to. Ychydig draul ar y lliain... £85.00
11. THE CHURCH-CATECHISM EXPLAINED: For the Use of the Diocese of St. Asaph. Llundain, Mynwent Paul St., 1704, 227 tud., 8vo mawr. Rhwymiad lledr panelog llawn. Enw hen berchennog — 'Meredydd Wynne' .......... £48.00
12. CLIFFE, C. F.: The Book of North Wales. Scenery, Antiquities, Highways and Byways, Lakes, Streams and Railways. Llundain, 1850, 302 tud. Platiau a thoriadau pren, 12mo. Cefn wedi ei drwsio .......... £48.00
13. DEACON's North and South Wales Court Guide and County Blue Book. Llundain, 1887, 452 tud., ynghyd â thros gan tudalen o hysbysebion. Lliain coch wedi treulio a'r map ddim yma .......... £18.00
14. FOULKES, I.: Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru. Lerpwl, 1870, 1112 tud. Hanner lledr, dalen deitl ddim yna .......... £15.00
15. GARDNER, W. & SAVORY, H. N.: Dinorben: A Hill-Fort occupied in Early Iron Age and Roman Times. Excavations 1912-69. Amgueddfa Genedlaethol Cymru 1964/1971. 236 + 86 tud., platiau, planiau, 4to .......... £10.00
16. GIRALDUS CAMBRENSIS: The Itinerary of Archbishop Baldwin Through Wales . . . trans. into English and Illustrated with Views, Annotations, and a Life of Giraldus by Sir Richard Colt Hoare, Bulmer Llundain 1806. Dwy gyfrol, map helaeth, 59 tud., 4to. Hanner lledr, cefn wedi ei euro .......... £335.00
17. GUEST, C. Lady: The Mabiniogion. 2il arg., Llundain, 1877, 504 tud., vignettes, byrddau marmor, cefn wedi ei euro .......... £55.00
18. GIRALDUS CAMBRENSIS: Itinerarium Cambriae, annotated by D. Powell. Bulmer, Llundain 1804, xxxii + 237 tud. + mynegai. Pedwar plât a map plygedig mawr wedi ei liwio gan Cary, 4to. Moroco coch llawn, euro, wedi ei ail-gefnu'n gelfydd .......... £150.00
19. HADLEY, A.: Conway Parish Registers 1541-1793. Llundain, 1900, 308 tud., clawr papur .......... £25.00
20. HEWETT, H.: Walking Through Merioneth. Drenewydd c1930. 247 tud., 23 llun. Map plygedig wedi ei drwsio .......... £9.50
21. HUGHES, H. D.: Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid, Mei (1866). 1979. Platiau .......... £5.00
22. HUGHES, H. & NORTH, H. L.: The Old Cottages of Snowdonia. 2il arg. 1979. 112 tud., 12 plât .......... £16.00
23. HUGHES, H. & NORTH, H. L.: The Old Churches of Snowdonia, Bangor 1924. Arg Cyntaf. 285 tud., 34 plât. Byrddau a pheth brychni ar y cefn lliain £30.00
24. JACKSON, K.: Early Welsh Gnomic Poems. Gwasg Prifysgol Cymru, 1935, 70 tud .......... £14.00
25. JONES, A.: The History of Gruffydd ap Cynan. Manceinion, 1910. 204 tud. Tri plât .......... £22.00
26. MORGAN, D. W.: Brief Glory. Gwasg y Brython, 1948, 299 tud., 91 o blatiau. Cefn wedi colli lliw. (Cyfrol am hwylio ar Afon Mawddach) .......... £19.50
27. MORGAN O. (Morien): The Light of Britannia; the Mysteries of Ancient British Druidism Unveiled etc. Caerdydd c1880, 431 tud .......... £48.00
28. NEWCOMBE, R.: An Account of the Castle and Town of Ruthin. Ruthin 1836, 85 tud., plan, plât. Ail rwymwyd, lledr llawn .......... £35.00
29. NEWCOMBE, R.: An Account of the Castle and Town of Denbigh. Dinbych 1839, 128 tud. Dau blan, allan o lyfrgell, copi'r Archddiacon Thomas gyda'i nodiadau ar y cyrrion. Lliain a byrddau .......... £35.00
30. PARRY, T.: Gwaith Dafydd ap Gwilym. Gwasg Prifysgol Cymru 1952, 607 tud. .......... £18.00
31. PENNANT, T.: The View of Hindoostan. Dwy gyfrol, Llundain 1793, 263 tud. + mynegai; 375 tud + mynegai. Map plygedig ac ugain allan o'r 21 o blatiau. Peth ôl pryfed. 4to, hanner lledr a pheth traul ar gorneli .......... £140.00
32. PENNANT, T. (Gol. Rhys, J.): Teithiau yng Nghymru. Caernarfon 1883, 673 tud., 46 o blatiau. Hanner lledr wedi gwisgo .......... £30.00
33. POWELL, T. G. E. and DANIEL, G. E.: Barclodiad y Gawres. The Excavation of a Megalithic Chamber Tomb in Anglesey. Lerpwl 1956, 80 tud., platiau a phlaniau .......... £14.00
34. PRYCE, A. I.: The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century, together with The Diocese of Bangor during Three Centuries; being a Digest of the Registers of the Bishops. Dwy gyfrol. Caerdydd 1923 a 1929, 89 tud. a 186 tud. Cefn lliain a byrddau .......... £22.00
35. REES, A. D.: Life in a Welsh Countryside: A Social Study of Llanfihangel yng Ngwynfa. Gwasg Prifysgol Cymru 1951. 188 tud. Deuddeg plât a 35 planiau £15.50
36. ROBERTS, G. M.: Hanes Plwyf Llandybie. Gwasg Prifysgol Cymru 1939, 334 tud. Plât a map plygedig .......... £12.00
37. ROSCOE, T.: Wanderings and Excursions in North Wales. Llundain 1838, 264 tud., 51 plât. Hanner euro moroco, mymryn o frychni .......... £115.00
38. TUCKER, N.: Conway and its Story. Gee 1960, 148 tud., platiau .......... £12.50
39. THOMAS, D. R.: The History of the Diocese of St. Asaph. New enlarged and illustrated edition. Tair cyfrol. 1380 tud., platiau, hanner lledr, mymryn o draul. Croesoswallt 1908 .......... £125.00
40. WILLIAMS, Ifor: Canu Aneirin. Gwasg Prifysgol Cymru 1938, 418 tud... £18.00
41. WILLIAMS, J.: Ancient and Modern Denbigh. Dinbych 1856, 361 tud. Dim ond dau blât. Traul .......... £35.00
42. WILLIAMS, P. Parch.: Mynegeir Ysgrythyrol neu Ddangoseg Egwyddorol o'r Holl Ymadroddion yn yr Hen Destament a'r Newydd. Jonathan Harris Caerfyrddin 1809. 420 tud. Lledr llawn. Enw perchennog wedi ei dorri o'r ddalen deitl .......... £18.00
43. WILLIAMS, R. Parch.: The History and Antiquities of the Town of Aberconwy and its Neighbourhood. Dinbych 1835. 200 tud. Ail-rwymwyd mewn hanner lledr .......... £45.00